

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod : 01.10.13
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol :Y Cyngorwyr ; Dylan Jones, Arwel Nicholas, Danny Davies, Wyn Thomas, Carolyn Smethurst, Malcolm Howells, Elfed Davies, Cyngorydd Sîr, Irfon Jones
Ymddiheuriadau : Dim

Rhif Agenda	Nodiadau/ Pendefyniadau	I'w weithredu gan
Cofnodion	Angen cywiro; MH yn diswyddo nid ymddeol :ychwanegu sôn am Hysbysfwrdd : y Cyngor sy'n penodi Ymddiriedolwyr	Clerc
Materion yn codi	<p>Ateb llythyr Prif Weithredwr Cyngor Sîr - ddim yn galonogol. Yn debyg i lythyr cyffredinol ac nid yn cynnig atebion l'r pwyntiau penodol a godwyd. Anodd I Gyngor Cymunedol gyd weithio â'r Sîr; hanes gwael o'r Sîr yn ateb ceisiadau am waith angen ei wneud. Nid cyfrifoldeb y Gymuned yw gwneud gwaith ar y priffyrdd; y Sîr sydd a'r awdurdod I wneud hynny. Siomedig oedd ymateb y Sîr I geisiadau am wybodaeth pellach pan yn trafod cau'r Cyfleusterau. Yn gyffredinol; hanes gwael sydd l'r Sîr ymateb i lythyron.</p> <p>Cronfa Jenny Eirian - £4,000 mewn Cyfrif a llôg o £100 y flwyddyn. Graddfa llôg megis dim ar hyn o bryd ac nid oes gwariant o'r arian wedi bod ychwaith. Yr Ymddiriedolwyr a fu oedd: J Phillips, Davies Ffynnonlas, J Dyer, M Lloyd, D Thomas a K Lloyd. Gofyn I Dorian Thomas annerch y Cyngor ac yna ethol Pwyllgor newydd. Gofyn I Aled Davies, Pennaeth Ysgol Llanpumsaint I fod yn bresennol. Angen cyfrannu'n flynyddol; efallai £500 y flwyddyn gyntaf. Awgrymwyd gan ED drosglwyddo cyfrifoldeb y Gronfa l'r Ysgol.</p> <p>Gwahodd D Thomas l'r Cyfarfod nesaf</p> <p>Ymddiriedolwyr y Neuadd- llythyr oddi wrth Derick Locke yn diolch am y ddau benodiad a wnaethpwyd a dweud bod angen 2 Ymddiriedolydd arall. Gweddill yr Ymddiriedolwyr yn awyddus I groesawu y ddwy wraig a gynnigodd am y safleoedd gwag blaenorol. DD yn cynnig ethol Jo Davies a Kate Frost a CS yn eilio. CS yn gofyn am stwythur y Pwyllgor. AN yn ateb; Cyngor yn penodi 8, a'r Capeli/Mudiadau arall yn penodi'r gweddill, sy'n gwneud cyfanswm o 15. Comisiwn Elusennau wedi dweud ei bod yn iawn l'r Cyngor wneud mwy o benodiadau.</p> <p>Gwefan Llanpumsaint – Y Clerc a CS wedi cyfarfod â Jeremy Cluloe o Webswonder ac wedi trafod opsiynau. Cytunwyd mae ychwanegu tudalen penodol y Cyngor i wefan</p>	Clerc

	<p>Llanpumsaint fyddde orau, gyda'r Clerc yn cael awdurdod Gweinydd I osod gwybodaeth a gohebiaeth arno. Fydd y Clerc yn cael cyfeiriad e-bost cyffredinol yn hytrach na chyhoeddu cyfeiriad personol. Cwmnïau arall yn gofyn £250 yn flynyddol am greu gwefan; cost blynyddol o tua £70 fydd cynnal tudalen. Am gost o £420 + TAW, fydd Webswonder yn gwneud y gwaith angenrheidiol o gysylltu tudalen newydd I'r Wefan bresennol, a rhoi hyfforddiant I'r Clerc. WT yn cynnig derbyn y telerau; DD yn eilio.</p> <p>Cyfleusterau – CCC yn fodlon trosgwlyddo'r Cyfleusterau I'r Gymuned oherwydd eu bod wedi adeiladu ar dir y Neuadd, heb gost ond am gostau cyfreithiol. AN; os bydd y Toiledau yn cau, y Neuadd am dderbyn y tir nôl. Nid yw'r Neuadd am gost cynnal y Cyfleusterau. Dywedodd WT, os oes gyda'r Neuadd allwedd I'r Cyfleusterau, amhosib fydd eu cau. Ateb ED oedd, os bydd y Toiledau yn cau, fydd dim gwerth perchnogi allwedd. Ni ddaeth gwybodaeth pellach ynglyn â TUPE a chyfrifoldebau'r Gymuned. Penderfynnwyd gadael y mater yn llonydd.</p> <p>Cynghorydd newydd – y Clerc heb dderbyn y protocol cywir oddi wrth Robert Edgecume. WT yn cynnig enw Susan Convery o fewn CCC, ar gyfer gweithredu'r drefn cywir.</p>	
Gohebiaeth	<p>Cyfle I archwilio Cynllun Datblygu Lleol Amnest Teiars Amodau Pleidleisio- Cynghorwyr yn fodlon â'r drefn</p>	
Cynllunio	Dim	
Materion Ariannol	<p>Cytunwyd talu: Archwilwyr BDO Cyfieithydd Elusennau</p>	
UFA	<p>MH – Capel Bethel yn cau. Angen trafod dyfodol y maes parcio a Thy'r Hers. Cyngor y Gymuned sydd berchen Ty'r Hers oherwydd iddi y telir rhent, ond nid y Maes Parcio. Ble mae'r Gweithredoedd? Golau stryd gerllaw Penbontbren; angen tocio'r brigau eto. Baw cŵn yn dal I fod yn broblem; Derick Locke ac eraill yn glanhau carthion ci ond nid pawb. Eraill yn gosod y baw mewn bag, ai adael yn y clawdd. WT yn dweud bod angen enwau ar Cynghorydd Jim Jones os am erlid y tramgwyddwyr.</p> <p>CS – Calonnau Cymru. Ambiwllans Cymru yn fodlon ariannu'r Defibrillator, a rhoi hyfforddiant I unigolion penodol. Rhaid I'r Gymuned dalu am osod socet trydan yn y Blwch ac mae BT yn fodlon talu am y trydan. Angen penderfynnu ydi'r Cyngor am gymeryd cyfrifoldeb am y prosiect ynte dewis rhywun arall. Dywed WT fod angen dewis yr unigolion penodol gyntaf ac I son am y prosiect yn Llais y Pentref. Gofyn I Chris Peake alw Pwyllgor. Fferm Wynt Brechfa; y llwybyr mwyaf ffafriol yw I'r gwifrau I ddilyn yr A484, sef heol Alltwallis.</p>	

